

RHAGLEN WAITH BLYNYDDOL – Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Straplein: **Mae Craffu Da'n helpu'r Cyngor i gyflawni er budd Pobl Gwynedd**A BLAENORIAETHAU

	Testun	Pwrpas
1	<p><u>Strategaeth Gymunedol</u></p> <p>Mae'r Strategaeth Gymunedol yn anelu i gynnwys budd-ddeiliad allweddol yn y Sir i gydweithio ar lunio gweledigaeth a chynllunio a darparu gwasanaethau er budd pobl Gwynedd.</p> <p>Y Cyngor sy'n gyfrifol am arwain y gwaith yng Ngwynedd ond mae'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Heddlu, colegau ac eraill.</p> <p>Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i lunio un Strategaeth ar y cyd o hyn allan.</p>	<p>Ystyried</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Beth lwyddwyd i'w gyflawni a pha bethau sydd yn dal heb gael eu cyflawni o Strategaeth <i>Gwynedd ar y Cyd 2008-12</i> b) Ydi'r materion hynny wedi cael sylw priodol yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Strategaeth Gymunedol - <i>Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd 2011 ymlaen</i> c) Beth yw effaith y Strategaeth ar bobl Gwynedd ch) Blaenoriaethau drafft y <i>Bwrdd Gwasanaethau Lleol</i> newydd d) Llunio argymhellion i sylw'r <i>Bwrdd Gwasanaethau Lleol</i> newydd i'w hystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth newydd ar y cyd gydag Ynys Môn
2	<p><u>Strategaeth Arbedion</u></p> <p>Er mwyn cynllunio a gwireddu arbedion o £37.5m, mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried ers 2008 sut orau i gyflawni hyn wrth gynnal gwasanaethau o'r safon gorau posibl.</p>	<p>Ystyried</p> <ul style="list-style-type: none"> a) effaith gweithredu'r Strategaeth (drwy gyflawni Arbedion Effeithlonrwydd a Thoriadau) ar ddefnyddwyr gwasanaeth, economi a thrigolion Gwynedd rhwng 2009-12. b) Rôl y Cyngor o safbwynt gwarchod swyddi yn y sector gyhoeddus c) Awgrymiadau am arbedion pellach – e.e. Newyddion Gwynedd ch) Herio llwyddiant i gadw at y polisi cydraddoldeb wrth

		<p>wireddu arbedion</p> <p>d) Pa mor ddiuedd yw swyddogion sy'n penderfynu ar effeithlonrwydd?</p> <p>dd) Llunio argymhellion er sylw'r <i>Aelod Cabinet Adnoddau</i></p>
3	<p><u>Cynllun Strategol y Cyngor</u></p> <p>Dyma'r Cynllun sy'n rhoi cyfeiriad strategol tymor canolig i holl waith y Cyngor.</p>	<p>Ystyried</p> <p>a) Cyrhaeddiad y Cyngor ar ei <i>Gynllun 3 Blynedd</i></p> <p>b) <i>Adroddiad Gwella Blyneddol</i> y Cyngor</p> <p>c) <i>Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru ch)Adolygiad o'r Cynllun 3 Blynedd</i></p> <p>d) Llunio argymhellion i <i>Arweinydd y Cyngor</i></p>
4	<p><u>Caffael Cynladwy</u></p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithredu Strategaeth Caffael ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.</p> <p>Mae'n fwriad gan y Cyngor sicrhau ei fod yn cynyddu nifer y busnesau lleol sy'n cystadlu am waith wrth wireddu'r strategaeth.</p>	<p>a) Asesu effaith y polisi o ran cadw busnes yn lleol</p> <p>b) Llunio argymhellion i <i>Aelod Cabinet Economi</i></p>
5	<p><u>Y Cyngor a'r Cyhoedd</u></p> <p>Y ffordd mae'r Cyngor yn ymwneud â'r cyhoedd yng Ngwynedd</p>	<p>a) Pa gynnydd a wnaed ar gasgliadau adroddiad MORI yn 2009?</p> <p>b) Pa mor llwyddiannus yw trefniadau Ymgysylltu ac Ymgynghori cyfredol y Cyngor?</p> <p>c) Sut gellid eu gwella?</p> <p>ch) A oes gwersi i'w dysgu o berfformiad y Cyngor yn y gorffennol?</p> <p>d) Ystyried enghreifftiau o ymarfer da mewn mannau y tu allan i Wynedd a gan asiantaethau eraill</p>

		<p>dd) Ydi <i>Newyddion Gwynedd</i> yn cyflawni ei bwrpas?</p> <p>e) Ydi pawb yn glir o ba ddelwedd yr ydym eisiau ei gyfleu o Gyngor Gwynedd?</p> <p>f) Beth yw rôl y Prif Swyddogion?</p> <p>ff) Beth yw canfyddiad y cyhoedd o'r Cyngor?</p> <p>g) Llunio argymhellion i'r <i>Dirprwy Arweinydd</i></p>
6	<p><u>Gweithlu</u></p> <p>Mae cadw morâl uchel ymysg y gweithlu mewn cyfnod anodd yn allweddol os am wireddu ein haddewidion i bobl Gwynedd.</p>	<p>a) pa mor llwyddiannus yw trefniadau ymgysylltu rhwng y Prif Swyddogion â'r Rheolwyr a swyddogion eraill y Cyngor?</p> <p>b) Pa mor llwyddiannus yw dulliau rheoli cynhwysol o fewn unedau ac ar draws y Cyngor?</p> <p>c) A oes enghreifftiau fwlio yn cymryd lle?</p> <p>ch) A oes tystiolaeth bod cynnydd mewn damweiniau neu lacio rheolau lechyd a Diogelwch?</p> <p>d) Llunio argymhellion i <i>Aelod Cabinet Adnoddau</i></p>
7	<p><u>Balans rhwng gwasanaethau gwledig a threfol – costau cudd</u></p>	<p>Mae'n bosibl bod hwn yn fwy addas i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau</p>

B Ymchwiliad Craffu

	Testun	Pwrpas
8	<p><u>Trawsnewid Busnes – Meddylfryd Systemau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaed addewid gan y Cyngor yn 2009 i wella 	<p>a) Ystyried lle mae'r cynllun wedi cyrraedd</p> <p>b) Beth a gyflawnwyd hyd yn hyn</p>

	<p>gwasanaethau i gwsmeriaid erbyn 2012 drwy ddefnyddio 'Feddylfryd Systemau'.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 'Meddylfryd Systemau' yn gynllun cydnabyddedig ym maes datblygu busnes ac yn anelu i symleiddio prosesau busnes wrth gynnal safon neu wella gwasanaeth i'r cwsmer. • Byddai disgwyl i hyn wireddu arbediad. 	<ul style="list-style-type: none"> c) Ystyried pa broblemau a wynebwyd d) Holi cwsmeriaid ynglŷn ag effaith ar y gwasanaeth a ddarperir e) Holi swyddogion am eu profiadau f) Ystyried barn arbenigwyr allanol g) Ymweld â chynllun sydd wedi cyflawni newid mewn rhan arall o'r wlad h) Llunio argymhellion i <i>Aelod Cabinet Adnoddau</i>
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

C Materion Eraill

9	<p><u>Cynllunio Argyfwng</u></p> <p>Mae sicrhau trefniadau effeithiol ar draws y Sir mewn sefyllfa argyfwng yn allweddol i holl drigolion Gwynedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> a) Asesu cynnydd ar gynllun gweithredu yn dilyn adroddiad <i>Swyddfa Archwilio Cymru</i> b) Llunio argymhellion i <i>Aelod Cabinet Gofal Cwsmer</i>
10	<p><u>Gwell dealltwriaeth o ac ymwybyddiaeth o bartneriaethau a rôl y Cyngor</u></p>	<p>Awgrymir cadw'r eitem yma ar y Rhaglen heb ei hamserlennu gan ddilyn arweiniad y Canllawiau Statudol dan Fesur Llywodraeth Leol 2011</p>
11	<p><u>Materion Cynllunio</u></p>	<p>Cais am fwy o wybodaeth gan rai aelodau</p>
12	<p><u>Strategaeth Fflyd 2011-14</u></p> <p>Mae gwireddu'r strategaeth yn un o'r elfennau hanfodol o ran gwireddu Cynllun Ôl-troed Carbon y Cyngor a Chynllun Asedau'r Cyngor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> a) Craffu cynnydd ar gyflawni'r Strategaeth b) Llunio argymhellion i <i>Aelod Cabinet Amgylchedd</i> <p>Awgrymir trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau</p>